AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Hydref 2015

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y flwyddyn 2014–15

© Hawlfraint y Goron 2015 WG26666 ISBN digidol 978 1 4734 4886 5

## Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014 - 2015

**Awdurdod Lleol:** **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Conwy o ran cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

### 1. Crynodeb

1.1. Yn dilyn rhaglen weddnewid uchelgeisiol parhaus a ddechreuodd yn 2013-2014, mae adran gwasanaethau cymdeithasol y cyngor wedi gwneud newidiadau mawr i'w strwythur, gan gynnwys ad-drefnu timau yn barod ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Deddf GCLl) yn ogystal â gwneud arbedion sylweddol i gyd-fynd â chyllideb y cyngor. Bu rhywfaint o gynnydd o ran y meysydd a nodwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad y llynedd, ond ceir diffyg cynnydd mewn rhai meysydd allweddol.Mae adran Lles Cymunedol newydd y gwasanaeth wedi cymryd amser i ddatblygu'n llawn, yn enwedig o ran comisiynu, gan arwain at gynnydd cyfyngedig o ran strategaethau comisiynu a chysylltiadau gyda'r trydydd sector.

1.2. Ceir tystiolaeth o gynnydd o ran gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu sydd ag anghenion cymhleth, yn enwedig o ran llety, ond hefyd o ran gwaith integredig gyda phartneriaid iechyd sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o gynnydd o ran datblygiad gwasanaethau cymunedol ar gyfer pobl â dementia, a hynny serch cydnabyddiaeth o broffil y boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghonwy. Mae anamledd ac ansawdd adolygiadau, yn enwedig y rhai o bobl mewn cartrefi gofal, yn dal i fod yn broblem, a dim ond yn rhannol y gwnaiff y cynlluniau cyfredol sydd ar waith i fynd i'r afael â hyn ddatrys y mater.

1.3. Bu gwelliannau mewn rhai meysydd a nodwyd yn y gwasanaethau i blant yn 2013-2014, fel prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant, ond bu diffyg cynnydd mewn eraill. Mae'r gwerthusiad hwn yn nodi sawl maes perfformiad arall sydd wedi dirywio'n sylweddol. Mae'n gadarnhaol nodi bod y cyngor wedi datblygu'r grŵp Buddies, sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal ymhellach.

1.4. Mae'n gadarnhaol nodi bod gwasanaethu i oedolion ac i blant wedi gwneud cynnydd da wrth i strategaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar roi

mentrau amrywiol ar waith, ond mae’n rhy gynnar i werthuso eu heffeithiau.

1.5. Yn gyffredinol, mae’r rhaglen weddnewid gynhwysfawr wedi arafu rhai datblygiadau strategol; dim ond yn ddiweddar y rhoddwyd rhai cynlluniau a luniwyd y llynedd ar waith, a bydd effeithiau newidiadau’n fwy eglur y flwyddyn nesaf.

## 2. Yr ymateb i’r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

| Gwelliant a nodwyd y llynedd | Cynnydd yn2014-2015 |
|---|---|
| Cynlluniau strategol ar gyfer datblygu gwasanaethau cymunedol i bobl â dementia | Prin fu’r cynnydd yn ystod2014-2015, ac mae hwn yn dal i fod yn faes i’w wella. |
| Adolygiadau mwy prydlon a/neu gynhwysfawr o drefniadau gofal | Prin fu’r cynnydd yn ystod 2014-2015, ac mae hwn yn dal i fod yn faes i’w wella.Gallai fframwaith asesu mwy cryno a ddatblygwyd yn ddiweddar gynyddu nifer yr adolygiadau sy’n cael eu cwblhau yn y dyfodol, ond nid yw hyn yn datrys y mater o ansawdd ac efallai’n wir y bydd yn cael effaith andwyol bellach ar hyn. |
| Proffilio anghenion plant sy’n derbyn gofal sy’n chwilio am lety a galluogi dealltwriaeth a rennir o’r problemau | Ceir dadansoddiad anghenion o blant a fydd yn derbyn gofal yn y dyfodol a systemau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth a chynllunio strategol. |
| Prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant | Bu gwelliant i berfformiad yn y maes hwn o 78% i 89%. |
| Gwella cysylltiadau â’r adran dai i wella canlyniadau i’r rhai sy’n gadael gofal | Mae’r rhain wedi gwella ar ôl trefnu cyfarfodydd rheolaidd. Mae’n rhy gynnar i werthuso effaith hyn. |
| Ymyrraeth fwy prydlon gan dîm y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) ar gyfer pobl ifanc | Mae hwn yn dal i fod yn faes i’w wella ac yn faes y mae’r cyngor yn ei fonitro. |
| Mwy o bwyslais ar ganlyniadau i blant sy’n derbyn gofal | Mae hwn yn dal i fod yn faes i’w wella. |
| Dadansoddiad o weithgarwch comisiynu a datblygu strategaeth gomisiynu | Mae angen rhagor o welliant. Mae systemau ar waith i grynhoi gweithgarwch comisiynu lleol.Nid oes unrhyw ddatganiad sefyllfa’r farchnad eglur ar waith. |
| Cynnydd parhaus o ran datblygu cysylltiadau â BIPBC | Prin fu’r newid ar lefel strategol gan fod BIPBC wedi bod mewn cyfnod o newid, a dim ond yn ddiweddar y llenwyd |

| | |
|---|---|
| | swyddi allweddol. Mae'r cyngor yn parhau ei ymdrech i ddatblygu cysylltiadau â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.Yn weithredol, ceir tystiolaeth o waith cydweithredol effeithiol yn sicrhau canlyniadau da i bobl. |
| Amserlenni o ran prosesu cwynion yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant | Cynhaliwyd adolygiad a gwnaed argymhellion, ond mae'n rhy gynnar gwerthuso effaith hyn. |
| Cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol | Mae hwn yn dal i fod yn faes i'w wella. |
| Effeithiolrwydd ymatebion cychwynnol i ymholwyr yn y gwasanaethau i blant | Mae hwn wedi gwella. |
| Adolygu'r system rheoli gwybodaeth i sicrhau data cywir | Bydd y system well yn cael ei chyflwyno ym mis Medi 2015. |
| Adolygu'r ffordd y dilynir y broses amddiffyn oedolion agored i niwed er mwyn sicrhau bod pawb yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf | Cynhaliwyd adolygiad llawn, ond mae'n rhy gynnar i werthuso effaith hwn. |

## 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn cynnig cyfle i AGGCC sgwrsio â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, yn ogystal â'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, gwnaed ymweliadau safle â:

- Chanolfan DeuluoeddLlanrwst
- Tai Gofal Ychwanegol Hafan Gwydir
- Swyddfa aml-asiantaeth Canolfan Crwst

3.2. Cafodd AGGCC gyfarfodydd ag uwch-swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn hefyd i adolygu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus a thrafod cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad y llynedd o berfformiad. Roedd y cyngor yn gynorthwyol o ran ei ymgysylltiad ag AGGCC, gan hwyluso mynediad yn barod i ganiatáu i ymweliadau â safleoedd gael eu cynnal.

3.3. Cynhaliodd AGGCC adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu yn ystod y flwyddyn, a chynhaliodd arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a chan weithredwyr annibynnol hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys Llys Elian, darpariaeth gofal cartref Conwy, gwasanaeth preswyl i blant Tir Na Nog, gwasanaeth preswyl i blant

GlanyrAfon,a gwasanaethau maethu Conwy. Mae manylion y rhain ar gael mewn adroddiadau a gyhoeddwyd ac ar gael ar wefan AGGCC.

## 4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn nesaf.Bydd meysydd penodol ar gyfer gwaith dilynol yn cynnwys:

- Datblygu a gweithredu strategaethau comisiynu
- Datblygiadau mewn gwasanaethau iechyd meddwl
- Effaith y gwasanaeth pobl agored i niwed
- Effaith y Panel Ymylon Gofal
- Perfformiad o ran ymdrin â chwynion

## 5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

## 6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

### <u>Oedolion</u>

### Trosolwg

6.1. Blaenoriaeth y cyngor eleni fu gorffen ac yna ymsefydlu newidiadau i strwythur y sefydliad. Mae'r newidiadau hyn wedi cynnwys lleihau swyddi uwch-reoli ac ad-drefnu timau'n barod ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (DGCLl). Un datblygiad cadarnhaol yn y gwasanaethau i oedolion yw'r pwyslais cynyddol ar wasanaethau cymunedol, ailalluogi, a hybu annibyniaeth. Mae'r un pwynt mynediad a chanolfannau ardal amlddisgyblaeth wedi helpu i sicrhau ymateb cynt i ddiwallu anghenion.

6.2. Mae'r cyngor yn cydnabod bod y proffil o boblogaeth sy'n heneiddio yng

Nghonwy yn ei gwneud yn ofynnol datblygu ei wasanaethau dementia, ond prin fu'r cynnydd yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan wasanaethau cymdeithasol Conwy rywfaint o ddarpariaeth fewnol ar gyfer pobl â dementia trwy ei dîm ailalluogi, ond cyfyngwyd ar hon oherwydd diffyg capasiti. Mae cynlluniau ar y gweill i gael gwared ar y ddarpariaeth fewnol hon yn raddol a chomisiynu gwasanaethau o'r sector annibynnol. Mae comisiynu gyda'r sector annibynnol eisoes wedi creu gwasanaeth yn Llanrwst wledig sy'n rhoi seibiant i ofalwyr trwy gefnogi tua 60 o bobl gyda gwasanaeth dydd, ond mae hwn wedi'i gyfyngu'n ddaearyddol ac mae angen ei ymestyn.

6.3. Cydnabyddir bod darpariaeth o seibiant i ofalwyr yn fwlch yn y gwasanaeth gofal dementia, yn enwedig i bobl sydd angen cymorth nyrsio mewn cartref gofal, ac mae'r cyngor yn gweithio gyda'i gydweithwyr ym maes iechyd i fynd i'r afael â'r broblem. Mae'r cyngor yn dibynnu'n fawr ar drefniadau gofalu anffurfiol a'i gyfleuster gofal preswyl ei hun ar gyfer diwallu anghenion pobl â dementia. Mae partneriaeth dementia Conwy (rhwng maes iechyd, y trydydd sector, a gwasanaethau cymdeithasol) wedi mapio'r daith dementia, gan gymryd y gwasanaethau sydd gan bob sefydliad i'w cynnig i ystyriaeth a nodi'r bylchau. Mae'r cyhoedd wedi cymryd rhan yn y broses hon. Mae angen i'r cyngor gwblhau ei ddatganiad sefyllfa'r farchnad a'i strategaeth gomisiynu drafft nawr, gan gynnwys camau gweithredu ag amserlenni fel y gellir bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

6.4. Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl wedi bod trwy gyfnod o newid, ar ôl i'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd gael ei diddymu, a chynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaeth.Nodwyd sawl risg i'r gwasanaeth, ac amlygwyd y rhain yng nghyfarfod cofrestr risg gorfforaethol y cyngor.Mae'r rhain yn cynnwys gormod o bwyslais ar y model meddygol o ofal a dim digon o ystyriaeth o'r agweddau cymdeithasol ar sefyllfaoedd pobl a phroblemau gydag absenoldeb oherwydd salwch yn y gwasanaeth.Cydnabuwyd bod angen symudiad diwylliannol tuag at fodel gofal cymdeithasol, a cheir arwyddion cynnar o welliant. Mae meysydd eraill i'w gwella yn canolbwyntio ar y rhyngwyneb rhwng staff gofal cymdeithasol a'r GIG. Mae'n galonogol gweld bod y meysydd hyn wedi'u nodi a'u cydnabod gan yr holl bartïon fel meysydd i'w gwella.

6.5. Cynorthwyodd Conwy 500 o bobl ag anabledd dysgu y llynedd. Roedd 188 ohonynt yn byw yn y cartref teuluol, a chynorthwywyd 215 ohonynt i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Nid yw nifer y bobl a leolwyd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir, tua 31, wedi newid, ac mae gwaith yn parhau i alluogi'r rheini sydd eisiau symud yn ôl i mewn i Gonwy wneud hynny. Ceir swyddog neilltuedig sy'n cynnal cyfarfodydd grŵp llety misol i drafod a blaenoriaethu neilltuo'r llety sydd ar gael. Mae'r cyngor yn bod

yn rhagweithiol o ran dod o hyd i ragor o lety lleol ar ffurf tai gofal ychwanegol a adeiladwyd yn bwrpasol, yn debyg i'r rhai y mae pobl hŷn yn yr ardal yn byw ynddynt ar hyn o bryd. Un datblygiad o'r fath yw Bod Alaw ym Mae Colwyn, a fydd yn cynorthwyo saith o bobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned o fis Medi 2015, a bydd cyfleuster arall tebyg yn weithredol o fis Hydref 2015 ar gyferchwecho bobl. Mae'r cyngor yn ystyried y potensial o ddatblygu safleoedd presennol sy'n eiddo i'r cyngor nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion tebyg, gan wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael. Mae hon yn enghraifft o waith partneriaeth da rhwng y cyngor, y bwrdd iechyd a chymdeithasau tai lleol a fydd yn galluogi pobl ag anableddau dysgu i barhau i fyw mewn tai yn eu hardaloedd lleol.

6.6. Prin yw'r newid i nifer y cleientiaid gwasanaethau cymdeithasol sy'n hŷn na 65 oed ac sy'n cael eu cynorthwyo mewn gofal preswyl neu yn y gymuned yng Nghonwy, o holl boblogaeth y sir o bobl hŷn, mae ychydig yn llai'n cael eu cynorthwyo yn y gymuned ac mewn gofal preswyl na'r llynedd. Byddai gan AGGCC ddiddordeb mewn dilyn unrhyw gydberthynas rhwng llai o ddarpariaeth o wasanaethau a llwyddiant strategaethau ataliol ac ailalluogi'r cyngor sy'n cael eu defnyddio gan Gonwy erbyn hyn.

6.7. Mae cynnydd o ran gwella pa mor brydlon a chynhwysfawr yw adolygiadau blynyddol yn araf. Mae'r cyfarwyddwr yn cydnabod bod 143 o adolygiadau heb eu cwblhau ar adeg ei hadroddiad, ac mae'n priodoli hyn i broblemau capasiti. Mae arolygwyr AGGCC sy'n mynychu cyfarfodydd diogelu yn parhau i ganfod bod adolygiadau dilynol o gynlluniau gofal unigolion gan weithwyr cymdeithasol yn nodi anghenion hynod gynyddol nad ydynt yn cael eu diwallu gan y gwasanaeth.Mae'r cyngor wedi penodi unigolyn ychwanegol i fynd i'r afael â'r adolygiadau sydd heb eu cwblhau, ac mae cynlluniau i gyflwyno fframwaith asesu integredig newydd, ac mae'r cyngor yn gobeithio y bydd hyn yn cyflymu'r broses. Er y gallai hyn wella prydlondeb adolygiadau,dylid cymryd gofal nad yw ansawdd adolygiadau'n cael ei beryglu. Mae AGGCC, trwy ei phresenoldeb mewn cyfarfodydd diogelu, weithiau wedi nodi y byddai wedi bod modd nodi risgiau a nodwyd yn gynharach pe bai'r adolygiad yn fwy cynhwysfawr.

6.8. Caiff y broses ddiogelu ei rheoli'n dda gan y cyngor trwy ddull cyson. Mae'r cyngor yn bod yn rhagweithiol o ran adolygu ei brosesau diogelu i sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn, gan gynnwys adolygiad o'r trothwy ar gyfer atgyfeirio. Nid yw bob amser yn eglur bod teuluoedd, defnyddwyr gwasanaeth a throseddwyr honedig yn cael eu hysbysu am y canlyniad. Mae darpariaeth y cyngor o hyfforddiant diogelu i adrannau eraill y cyngor yn nodedig, gan gyfleu neges gref bod diogelu'n fusnes i bawb.

6.9. Bu cynnydd sylweddol i geisiadau i'r cyngor am awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y llynedd.Derbyniodd Conwy ychydig dros 400 o geisiadau am asesiadau awdurdodi, a dim ond tua un rhan o ddeg ohonynt gafodd eu cwblhau'n unol â'r amserlenni.Mae'r ceisiadau sy'n weddill ar restr aros. Mae'r cyngor yn cydnabod bod hyn oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau cyfyngedig i ymdrin â'r asesiadau ac adolygiadau dilynol yn fwy effeithlon.

## Blaenoriaethau Cenedlaethol Allweddol (oedolion)

### Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

6.10. Mae datblygu gwasanaeth pobl agored i niwed wedi bod yn garreg filltir allweddol i'r cyngor, un elfen sylfaenol o ffordd newydd o weithio'n unol ag egwyddorion y DGCLl. Mae'r tîm newydd hwn yn darparu gwasanaeth ataliol ac ailalluogi i'r rheini nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gofal eilaidd, gan helpu i atal dirywiad pellach a chynorthwyo pobl tuag at les gwell. Mae therapyddion galwedigaethol wedi'u halinio â'r gwasanaeth fel y gellir darparu cymhorthion addasiadau a chyngor yn brydlon a lleihau'r angen am ymyrraeth. Mae'r tîm hwn ar ddechrau ei oes ac nid yw wedi'i hysbysebu'n dda yng ngwybodaeth gyhoeddus y cyngor, gan gynnwys ei wefan. Mae perfformiad y tîm yn faes ar gyfer gwaith dilynol gan AGGCC.

6.11. Nod yr un pwynt mynediad a adnabyddir hefyd fel tîm mynediad Conwy yw cynnig llwybr eglur ac uniongyrchol i bobl gael gafael ar wybodaeth a chyngor. Y tîm a gydleolwyd, gan gynnwys maes iechyd, gofal cymdeithasol a gweithwyr trydydd sector proffesiynol, yw'r pwynt mynediad cyntaf ar gyfer oedolion sydd am dderbyn gofal. Mae'r gwasanaeth wedi cynorthwyo 2,386 o bobl rhwng Ionawr 2014 ac Ionawr 2015, o'i gymharu â 2,353 o bobl y flwyddyn gynt.Mae'r cyngor mewn trafodaethau gyda'i bartner iechyd i sefydlu ei gyfraniad at ariannu'r un pwynt mynediad yn yr hirdymor, a'i nod yw parhau a datblygu'r gwasanaeth.

6.12. Mae gwefan y cyngor yn gofyn am welliant. Er enghraifft, mae'n cyfeirio'r darllenwr at y daflen 'Cael Cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion', sydd 'wedi'i atodi', ond nid oes taflen â'r enw hwn ar gael. Mae hefyd yn cyfeirio'r darllenwr at restr o wasanaethau gwirfoddol trwy ddolen i'r we nad yw'n darparu'r wybodaeth honno ar ôl ei chlicio. Mae hwn yn faes i'w wella.

6.13. Mae'r tîm ailalluogi yn cynorthwyo pobl i gadw eu hannibyniaeth ac atal yr angen am dderbyniad i'r ysbyty a gofal arall mwy dwys. Recriwtiwyd mwy o weithwyr cymorth i'r tîm eleni wrth i alw gynyddu. Cwblhaodd 634

o bobl ymyrraeth ailalluogi eleni, ac roedd 80% angen dim rhagor o gefnogaeth neu lefel lawer is o gefnogaeth ar ei hôl. Mae hyn yn awgrymu llwyddiant mawr o ran strategaethau'r cyngor ar gyfer cynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth.

6.14. Ceir pedwar cyfleuster gofal ychwanegol yng Nghonwy ar hyn o bryd, sy'n galluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd â phosibl, gan gadw annibyniaeth ac elwa o'r ffaith bod cymorth ar gael pe bai ei angen. Mae'r rhain yn Abergele, Llanfairfechan, Llanrwst a Llandudno. Cyfarfu AGGCC ag un person sy'n byw yn un o'r cyfleusterau, a siaradodd yn gadarnhaol am y manteision sy'n newid bywydau a'i fod wedi oedi ac efallai atal gorfod symud i ofal preswyl.

6.15. Daeth rhaglen 'Gwaith Amdani' Conwy â nifer o fentrau sefydledig ynghyd sydd â'r nod o gael gwahanol grwpiau o bobl yn ôl i mewn i hyfforddiant neu waith. Daeth dadansoddiad manteision ac arbed costau i'r casgliad bod hwn yn dal i fod yn wasanaeth y mae wir ei angen, ac y byddai eu tynnu ynghyd mewn 'siop un stop' yn arwain at ddarpariaeth fwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r rhaglen newydd yn cyflawni canlyniadau ar gyfer grwpiau o bobl, fel y rhai ag anghenion iechyd meddwl. Dywed y cyngor fod 81% o'r bobl a dderbyniodd gymorth gan y tîm yn ystod saith mis cyntaf ei weithrediad wedi cael canlyniadau cadarnhaol, er nad yw'n eglur faint o'r rhain ddaeth o hyd i waith.

6.16. Roedd canran y gofalwyr am oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain fwy neu lai yr un fath â'r llynedd, 86%, ac mae'n dal i fod ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 88%. Fodd bynnag, mae canran y gofalwyr a dderbyniodd asesiad, 40%, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Nid yw'r cyngor yn hyderus bod yr holl wybodaeth yn cael ei chasglu'n gywir – er enghraifft, nid yw'r system yn nodi gofalwyr a gyfeiriwyd at gymdeithas Alzheimer am gymorth a chyngor. Bydd y system wybodaeth PARIS bresennol yn cael ei gwella'n ddiweddarach eleni, ac efallai y bydd y cyngor yn ystyried ffyrdd o gofnodi gwybodaeth o'r fath.

**Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn ag anghenion cymhleth**

6.17. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth. Mae'r bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau cymdeithasol Conwy, yn unol â 'Law yn Llaw at Iechyd – Darparu Gofal Diwedd Oes' (2013), wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwasanaeth diwedd oes. Ers cyflwyno'r cynllun peilot cychwynnol yn 2011, cynorthwywyd nifer gynyddol o bobl yng Nghonwy i farw yn eu cartrefi, o 69 o bobl yn 2012-2013 i 128 o bobl yn

2014-2015.

6.18. Mae timau amlddisgyblaethol yn weithredol yn Llanrwst a Llandudno, a a bydd tîm arall yn cael ei sefydlu ym Mae Colwyn ym mis Medi 2015. Caiff timau sy'n gweithio yn Llanfairfechan ac Abergele eu cydleoli â thimau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol hefyd. Mae'r timau'n cynnwys nyrsys cymunedol, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, sy'n cyfarfod yn wythnosol i drafod a blaenoriaethu atgyfeiriadau wrth i weithio mwy integredig arwain at amseroedd ymateb gwell a gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon i bobl yn y gymuned. Mae cynlluniau i ddatblygu mwy o ganolfannau lles cymunedol ledled Conwy. Mae canolfan Llandudno yn cynnig rhaglen weithgareddau amrywiol, ac mae cynlluniau ar y gweill i wneud hyn ym Mae Colwyn eleni. Cymeradwywyd yr angen am ganolfannau yn ardal Abergele yng Nghonwy gan aelodau'r cyngor a oedd yn cynrychioli eu hetholwyr yn y pwyllgor craffu. Mae'n rhy fuan i ddyfarnu i ba raddau y mae'r datblygiadau'n gwella canlyniadau i bobl hŷn. Dylai'r cyngor a'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o fesur llwyddiant gyda phwyslais ar ganlyniadau o ran lles gwell pobl hŷn. Mae hwn yn faes y bydd gan AGGCC ddiddordeb ei ddilyn yn ystod y misoedd nesaf.

**Meysydd o gynnydd**

- Mwy o bwyslais ar wasanaethau cymunedol, ailalluogi, a hybu annibyniaeth
- Nodi cyfleoedd a datblygu opsiynau tai lleol i bobl agored i niwed
- Datblygu gwasanaeth pobl agored i niwed
- Integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth

**Meysydd i'w gwella**

- Gwasanaethau cymunedol i bobl â dementia
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Pa mor brydlon a chynhwysfawr yw adolygiadau
- Rheoli ceisiadau am awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn unol ag amserlenni
- Datblygu'r wefan ymhellach

## **Plant a phobl ifanc**

### Trosolwg

6.19. Mae perfformiad y cyngor o ran gwasanaethau i blant wedi dirywio mewn rhai mannau, a ni fu unrhyw gynnydd mewn galw i esbonio hyn. Mae prydlondeb asesiadau craidd wedi dirywio'n sylweddol. Er i bron i 90% gael eu cwblhau'n unol â'r amserlen o 35 diwrnod y flwyddyn ddiwethaf, dirywiodd perfformiad yn ystod 2014-2015 i 74% ar ddiwedd y flwyddyn. Mae prydlondeb asesiadau cychwynnol wedi dirywio hefyd, o 82% yn cael eu cynnal o fewn saith diwrnod gwaith i 76% yn 2014-2015. Bu cynnydd i'r niferoedd ar y gofrestr amddiffyn plant o 80 yn 2014 i 98, ac mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn ei archwilio ymhellach. Arweiniodd cynllun gwella'r cyngor at alldro cadarnhaol o ran canran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth strategol, o 78% yn 2013-2014 i 89.6%, yn agos at gyfartaledd Cymru, ac mae'n galanogol bod gan y cyngor gynllun gweithredu ar waith i wella hyn ymhellach. Mae perfformiad o ran prydlondeb adolygiadau ar gyfer plant mewn angen yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn.

6.20. Yn 2014/15, roedd gostyngiad o 145, i gyfanswm o 723, yn nifer yr atgyfeiriadau a wnaed at y gwasanaethau i blant, er y bu cynnydd pellach i ailatgyfeiriadau at y cyngor yn ystod y flwyddyn o 146 i 158.Er bod hyn yn unol â chyfartaledd Cymru, mae hwn yn faes y dylai'r cyngor ei archwilio ymhellach i atal dirywiad parhaus o flwyddyn i flwyddyn. Bu gostyngiad i berfformiad hefyd o ran canran yr atgyfeiriadau a dderbyniodd benderfyniad o fewn un diwrnod gwaith, o 95.8% yn 2012-2013 i 92.4% eleni. Mae'r cyngor yn esbonio bod y dirywiad hwn i berfformiad yn cyfateb i adegau galw brig ac yn cadarnhau bod cymorth ychwanegol ar gael erbyn hyn. Mae hwn yn faes y bydd angen i'r cyngor barhau i ganolbwyntio arno er mwyn sicrhau nad oes dirywiad pellach.Er bod gwasanaeth i blant y cyngor wedi'i staffio'n llawn, mae ganddo gohort o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso.Efallai bod hyn yn cael effaith fyrdymor, a chynghorir y cyngor i'w fonitro.

6.21. Yn 2014, nododd AGGCC yr angen am ymyrraeth fwy prydlon gan dimau'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, ac mae hwn yn dal i fod yn faes i'w wella. Er bod y graddau y gall y cyngor ddylanwadu ar y maes hwn yn dal i fod yn gyfyngedig, mae'n gallu monitro cynlluniau gweithredu BIPBC trwy Dîm Partneriaeth Pobl Conwy. Mae'n bwysig bod y cyngor yn parhau i feddu ar wybodaeth am faint y diffyg hwn ac yn ystyried sut y gallai ddefnyddio ei adnoddau ei hun i wella canlyniadau i blant.

6.22. Mae gan y cyngor fecanweithiau ar waith ar gyfer gwrando ar blant a phobl ifanc ac ymgynghori â nhw, yn enwedig y rhai sy'n derbyn gofal. Mae'r grŵp Lleisiau Uchel wedi'i hen sefydlu ac yn cyfarfod drwy gydol y flwyddyn i rannu profiadau o ofal ac i addysgu eraill. Mae ganddo fewnbwn i'r tîm rhianta corfforaethol, ac mae'n gysylltiedig â'r grŵp Buddies, sy'n cynghori plant sy'n derbyn gofal a gweithwyr proffesiynol ar risgiau a chadw'n ddiogel.Mae'r cyngor wedi buddsoddi adnoddau mewn darparu hyfforddiant i'r grŵp hwn, sydd bellach wedi datblygu'n ddarpariaeth sydd ar gael i'r gwasanaethau i blant, yr heddlu, a Barnardo's.Mae'r gwaith hwn wedi bod yn fwriadol ymatebol hyd yn hyn er mwyn cefnogi rhywun sydd wedi mynd ar goll ac sydd eisiau cyngor. Mae'n gadarnhaol bod y cyngor hefyd yn bwriadu datblygu dull ataliol gyda'r grŵp.

## <u>Blaenoriaethau Cenedlaethol Allweddol</u>

### Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

6.23.Gwnaed gwelliannau i gronfa ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a darperir amrywiaeth o gyngor a chyfeiriadau defnyddiol.Nid yw'n eglur sut y caiff pobl eu hysbysu am y gwasanaeth a faint o bobl sydd wedi manteisio arno. Mae angen i'r cyngor fonitro defnydd o'r wefan i werthuso ei lwyddiant ac ennyn dealltwriaeth o le allai fod angen ei hysbysebu'n fwy effeithiol.

6.24. Ceir tystiolaeth bod teuluoedd yn cael eu cefnogi i gael mynediad at amrywiaeth fwy o wasanaethau cymunedol cyffredinol. Bu galw cynyddol am wasanaethau a ddarperir gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Ers mis Mawrth 2013, bu galw cynyddol gan y tîm o amgylch y teulu am waith ataliol, ar ôl iddo dderbyn 644 o atgyfeiriadau. Mae cyfnodau ail-alw o dri mis y mae'r tîm wedi ymdrin â nhw yn dynodi lefel uchel o lwyddiant, a dim ond 3% aeth yn eu blaenau i fod angen gwasanaeth statudol.

6.25. Darparwyd rhaglenni rhianta i 190 o rieni, a darparwyd 320 o sesiynau i rieni yn ardal wledig Llanrwst, lle mae galw am wasanaethau gan ganolfan deuluoedd Llanrwst wedi cynyddu. Mae'r ganolfan wedi cofrestru 500 o blant a phobl ifanc newydd a 290 o rieni newydd yn 2014-2015. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys sesiynau fel cynorthwyo rhieni i ddysgu iaith arwyddion, ynghyd â sesiynau meithrin ôl-enedigol sy'n cynnig cymorth ataliol i ddarpar rieni a chyngor ar fudd-daliadau, maetheg a chwarae, sydd wedi bod yn llwyddiannus. Dynododd arolwg a gynhaliwyd ar ôl sesiynau lefel uchel o adborth cadarnhaol. O ystyried llwyddiant y prosiect hwn, dylai'r cyngor ystyried datblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o Gonwy.

6.26. Mae'r cyngor yn defnyddio ei gyllid grant mewn ffyrdd arloesol i sicrhau bod mwy o bobl yn mwynhau manteision mentrau fel cyrsiau rhianta a ddarperir trwy Dechrau'n Deg.Mae cynrychiolwyr Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf yn rhan o'r grŵp ariannu Trechu Tlodi er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol fel bod mwy o bobl yn elwa.

6.27. Mae'r Panel Ymylon Gofal yn enghraifft arall o waith ataliol.Ers mis Hydref 2014, mae grŵp o bedwar swyddog,o'r gwasanaethau maethu, y tîm ymyriadau teuluol a gwaith cymdeithasol, yn cyfarfod unwaith y mis i ystyried plant mewn angen sydd mewn perygl o orfod derbyn gofal a sianelu cymorth ac adnoddau'n unol â hynny. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y tîm hwn, ac mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arno.

**Plant sy'n derbyn gofal**

6.28. Yn gyffredinol, gostyngodd nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan y cyngor rhyw fymryn yn ystod 2014-2015 (odrio blant o 159 i 156),ac felly 7.2 o bob 1,000 o'r boblogaeth yw cyfradd y plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.

6.29. Er y bu rhywfaint o gynnydd o ran bodloni argymhellion yn deillio o'r adolygiad cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal ag ymddygiadau cymhleth a pheryglus, ceir sawl maes sydd angen sylw o hyd. Mae datblygiadau'n cynnwys gwaith comisiynu swyddogion y grŵp rhianta corfforaethol i gynnal dadansoddiad anghenion o ran llety i'r rhai sy'n gadael gofal, a hefyd y cyngor ieuenctid a grŵp Lleisiau Uchel i ddatblygu fersiynau sy'n ystyriol o blant o'r Cynllun Rhianta Corfforaethol.

6.30. Mae recriwtio gofalwyr maeth yn dal i fod yn her i'r cyngor.Mae'r cyngor wedi comisiynu ymgynghorydd annibynnol i gynorthwyo gyda'r gwaith o gaffael gofalwyr maeth ychwanegol yn rhan o'i gynllun gweithredu, gyda'r nod o recriwtio mwy o ofalwyr maeth dros y ddwy flynedd nesaf. Ar1 Rhagfyr 2014, roedd 69 o blant wedi'u lleoli â gofalwyr maeth(gan gynnwys 18 o blant ag asiantaethau maethu annibynnol) a 23 gyda gofalwyr sy'n ffrindiau neu'n deulu (gofalwyr sy'n berthynas).

6.31. Datblygiad allweddol arall ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yw cydweithrediad y gwasanaeth pobl agored i niwed gyda'r adran dai i ffurfio'r Panel Tai Anghenion Cymhleth. Mae'r panel hwn yn cyfarfod bob mis i ystyried sut y gellir darparu llety i bobl ag anghenion mwy cymhleth, a gall y cyngor gynnig tystiolaeth o ganlyniadau da.


6.32. Fe wnaeth prydlondeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wella y llynedd, ac mae wedi parhau'n sefydlog yn 2015 wrth i 97.6% gael eu cynnal yn unol ag amserlenni statudol. Gwelwyd alldro cadarnhaol o ran canran lleoliadau cyntaf plant sy'n derbyn gofal a ddechreuodd gyda chynllun gofal ar waith, o 91% yn 2014 i 98.3% yn 2015. Bu'n rhaid i lai o blant sy'n derbyn gofal symud ysgol unwaith neu fwy o weithiau, o 8.7% y llynedd i 3.3% yn 2015.

6.33. Roedd y cyngor mewn cysylltiad ag 87.5% (14 o 16) o'i bobl ifanc a oedd yn blant sy'n derbyn gofal ar ôl 19 oed, sy'n gynnydd o 7.5%. Fodd bynnag, mae'n siomedig nodi mai dim ond 64.3% o'r bobl ifanc hynny yr oedd yn hysbys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19oed, sy'n ddirywiad i berfformiad.

6.34. Dirywiodd perfformiad yn 2014-2015 o ran sefydlogrwydd lleoliadau, o 6.1% a oedd wedi bod mewn tri neu fwy o leoliadau i 11.4% (o 158 o blant sy'n derbyn gofal). Mae'r perfformiad hwn yn chwartel isaf Cymru erbyn hyn, lle mae'r cyfartaledd yn 9%. Er bod hyn yn cynnwys symudiadau sydd wedi arwain at ganlyniadau da i blant, fel babanod yr hwyluswyd iddynt symud yn ôl o gartref maeth i gartref rhieni a symudiadau yn ôl i'r sir ymhlith y rhai sydd ychydig yn iau na 18 oed, mae'n faes y mae angen i'r cyngor roi sylw pellach iddo.

6.35. Yn dilyn gwelliant nodedig o 7% y llynedd i ganran y plant sy'n derbyn gofal â chynllun addysg personol ar waith yn unol â'r amserlenni, mae'n siomedig nad yw hyn wedi cael ei gynnal. Bu dirywiad i berfformiad o 92% yn 2013-2014 i 85.2% yn 2014-2015, er bod hyn yn dal i gymharu'n dda â chyfartaledd Cymru gyfan o 69%.

6.36. Dirywiodd cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn wrth i'r sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog ostwng o 302.11 i 175.47. Mae'r cyngor yn priodoli hyn i ffactorau amrywiol sy'n benodol i blant unigol.




**Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth**

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Conwy | 188 | 169 | 167 | 178 | 163 | 159 | 156 |

## Meysydd o gynnydd

- Cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn 15 diwrnod
- Buddsoddiad a datblygiad pellach trefniadau presennol ar gyfer ymgysylltu â phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal
- Buddsoddiad a datblygiad o ran gwasanaethau teuluol cymunedol
- Datblygu Panel Ymylon Gofal
- Y trefniadau ar gyfer archwilio opsiynau llety ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth

## Meysydd i'w gwella

- Prydlondeb asesiadau cychwynnol a chraidd
- Recriwtio gofalwyr maeth
- Canran y bobl ifanc y mae'n hysbys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed
- Sefydlogrwydd lleoliadau

## 7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

7.1. Mae'r cyfarwyddwr yn darparu cyfeiriad eglur i'r staff, a thrwy ei pherthynas gyda'r tîm rheoli corfforaethol a'r aelodau, yn sicrhau dealltwriaeth a chyfrifoldeb a rennir o ran yr agenda lles a gyflwynir yn Neddf GCLl (Cymru). Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd a rennir ar draws y cyngor am ddiogelu pobl agored i niwed.

7.2 . Mae'r cyngor wedi adolygu capasiti ei uwch-reolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'i raglen weddnewid ac wedi lleihau nifer y swyddogion ar haen 2/3 o 35%, gan wneud arbedion sylweddol. Mae hyn wedi ehangu portffolio penaethiaid gwasanaethau a rheolwyr gwasanaethau, er nad oes unrhyw dystiolaeth o effaith andwyol y cynnydd hwn i'r llwyth gwaith ar hyn o bryd. Mae ad-drefnu'r gwasanaeth wedi caniatáu i gyfrifoldebau gael eu symleiddio, a ddylai hwyluso trosolwg mwy cynhwysfawr o feysydd arfer penodol, fel diogelu, wedyn.

7.3. Mae diogelu plant ac oedolion wedi cael ei alinio o dan un rheolwr erbyn hyn, gyda'r nod o sicrhau mwy o gysondeb a sicrwydd ansawdd. Mae hyn newydd ddechrau, a bydd dealltwriaeth well o'r effaith y flwyddyn nesaf.

7.4. Mae'r cyngor wedi cymryd amser i benodi'n briodol i bob swydd allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol ar gyfer agenda'r DGCLl. Dylai cynlluniau gweddnewid wneud cynnydd cyflymach nawr, yn enwedig ym maes lles cymunedol, y mae maes gwasanaeth a chapasiti rheoli newydd wedi'i neilltuo iddo. Dylai mwy o bwyslais ar ddatblygu strategaeth gomisiynu a chysylltiadau sector annibynnol a thrydydd sector ddilyn.

7.5. Mae gan y cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae adran gwasanaeth wedi'i neilltuo i safonau ansawdd,a chynhaliwyd sawl adolygiad ganddi trwy gydol y flwyddyn. Nododd archwiliad mewnol o Ganmoliaeth, Cwynion a Sylwadau Gwasanaethau Cymdeithasol risgiau, ond nid oedd yn gynhwysfawr. Ni chymerodd argymhellion AGGCC a wnaed yn 2013-2014 i ystyriaeth. Mae adroddiad y cyngor yn cydnabod bod gwaith sylweddol i'w wneud i wella ei berfformiad o ran ymdrin â chwynion. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arno yn 2015-2016.

7.6. Roedd datganiadau sefyllfa'r farchnad bron wedi'u cwblhau, ond roedd cynnydd gyda strategaethau comisiynu'r cyngor wedi cael ei amharu

gan yr amser a gymerwyd i recriwtio i'r swydd rheolwr comisiynu. Mae comisiynu'n dal i fod yn faes i'w ddatblygu gan symud o strategaethau i gamau gweithredu.

7.7. Ceir enghreifftiau o ymgysylltiad da â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal, pobl hŷn a gwasanaethau anabledd dysgu o ran siapio cyfeiriad y dyfodol. Ceir cyfleoedd i ddatblygu ymgysylltiad ag eraill ymhellach wrth i'r strategaeth gomisiynu gael ei datblygu.

7.8. Mae'r cyngor wedi parhau i fonitro ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu comisiynu trwy ei weithdrefnau diogelu ac uwchgyfeirio pryderon. Mae'r cyngor yn ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau yn gynnar yn y broses i gyflawni newidiadau'n gyflym. Mae AGGCC wedi gweld sut y mae'r trefniadau a adolygwyd yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarparwyr gwasanaethau i fod yn atebol am eu darpariaeth, i liniaru risgiau, ac i gynnig tystiolaeth o ansawdd gwell, ac mae hyn yn unol â dull y rheoleiddiwr.

7.9. Arsylwodd AGGCC ddau o gyfarfodydd y pwyllgor craffu yn ystod 2014-2015. Roedd gan aelodau'r pwyllgor craffu ddealltwriaeth dda o'r materion a oedd yn cael eu trafod, ac roeddent yn darparu lefel dda o her adeiladol, yn enwedig i adroddiad y cyfarwyddwr ar y mater o wasanaethau cymunedol mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu cystal. Lle rhoddwyd sicrwydd o gynlluniau'r dyfodol, bydd aelodau'r pwyllgor craffu'n dymuno monitro cynnydd er mwyn sicrhau nad yw materion yn cael eu gadael heb eu datrys.

7.10. Bu gan y cyngor berthynas anodd gyda'r bwrdd iechyd yn y gorffennol. Yn dilyn rhywfaint o ymgysylltiad cynnar addawol gyda phartneriaid iechyd yn ystod y flwyddyn, mae blaenoriaethau sy'n newid yn BIPBC yn bygwth cynnydd erbyn hyn. Bydd angen i'r cyngor barhau'r momentwm gyda chryn awdurdod i leihau'r risg hwn.

**Meysydd o gynnydd**

- Dealltwriaeth ac atebolrwydd ar draws y cyngor o ran diogelu
- Datblygiadau o ran gweddnewid ac ad-drefnu gwasanaethau
- Ymrwymwyd adnoddau i safonau ansawdd

**Meysydd i'w gwella**

- Cwblhau datganiadau sefyllfa'r farchnad a strategaethau comisiynu